**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced**

428/51

**CYMDEITHASEG – SOC 5a**

**UNED 5a - DULLIAU YMCHWIL CYMDEITHASEGOL CYMHWYSOL**

P.M. DYDD GWENER, 15 Mehefin 2007

(1 awr 15 munud)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfryn ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **bob** cwestiwn.

Cynghorir chi i dreulio tua 15 munud yn darllen y darn ac yna i rannu eich amser yn ôl y marciau a roddir.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.

Darllenwch y darn canlynol ac yna atebwch **bob un** o'r cwestiynau sy'n dilyn.

**Rôl crefydd ym mywydau plant**

Ym mis Gorffennaf 2005 cyhoeddwyd adroddiad gan y Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Plant ar ran Sefydliad Joseph Rowntree ynglŷn â chredoau *(beliefs)* crefyddol plant. Bu'r tîm a fu'n cynnal yr ymchwil, dan arweiniad Greg Smith, yn dadansoddi safbwyntiau sampl o 100 a mwy o blant rhwng 9 ac 11 oed.

Roedd yr ymchwil yn canolbwyntio ar ddwy ysgol gynradd eglwysig, yn gwasanaethu ardaloedd amlethnig ac aml-ffydd mewn dinas yng ngogledd Lloegr, ac un ysgol gynradd awdurdod lleol mewn bwrdeistref amlddiwylliannol yn nwyrain Llundain.

Roedd y tîm ymchwil yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau ansoddol gan fwyaf, yn cynnwys cyfweliadau, trafodaethau dosbarth, ymarferiadau ar daflenni gwaith, ac arsylwadau ethnograffig a wnaed yn yr ysgol. Amcan yr ymchwilwyr oedd casglu gwybodaeth fanwl am gredoau ac arferion crefyddol y plant. Roeddynt am ddod i wybod a oedd y plant yn mynychu addolfan *(place of worship)* yn rheolaidd ac a oedd dysgeidiaeth eu crefydd arbennig hwy yn chwarae rhan bwysig yn eu bywydau. Er mwyn cyflawni'r amcanion hynny, buont yn astudio'r plant dros gyfnod o 18 mis.

Wedi iddynt siarad â hwy, daeth yr ymchwilwyr i ddeall bod y plant yn disgrifio eu credoau yn nhermau arferion cymdeithasol a dysgeidiaeth ynglŷn â moesoldeb a moeseg. O ganlyniad i hynny aeth yr ymchwilwyr ati i drefnu disgrifiadau'r plant o'u profiadau o gwmpas tri maes creiddiol:

- Hunaniaeth grefyddol
- Arferion cymdeithasol
- Credo ac ysbrydolrwydd

Daeth yr ymchwilwyr i ddeall bod credo'r rhieni yn dylanwadu'n gryf ar gredoau'r plant ac mai'r ysgol yn aml yw'r unig le y bydd plant o gefndiroedd crefyddol ac ethnig gwahanol yn cyfarfod yn rheolaidd. Roedd y plant yn defnyddio'r termau Asiaidd a Christnogol i nodi gwahaniaeth hiliol, ffaith sy'n dangos, yn ôl yr ymchwilwyr, bod ethnigrwydd a chrefydd yn gorgyffwrdd yn nealltwriaeth plant.

Addasiad o 'Children and Religious Belief' gan Joan Garrod, *Sociology Review* (Chwefror 2006)

*(a)* Eglurwch beth yw ystyr y term dulliau **ansoddol**. [5]

*(b)* Amlinellwch ac eglurwch pam roedd defnyddio dulliau ansoddol yn briodol ar gyfer yr ymchwil a ddisgrifir yn y darn uchod. [10]

*(c)* Gan ddefnyddio enghreifftiau lle bo'n briodol, amlinellwch ac eglurwch pam mae rhai cymdeithasegwyr yn beirniadu dulliau ansoddol. [15]

*(ch)* Rydych yn bwriadu cynnal project ymchwil i gasglu data **meintiol** er mwyn ymchwilio i'r rôl y mae crefydd yn ei chwarae ym mywydau sampl gynrychiadol o oedolion yn eich ardal chi.
Disgrifiwch eich cynllun ymchwil gan egluro a chyfiawnhau eich dewisiadau ym mhob cam o'r broses.
Nodwch rai o'r problemau y gallech ddod ar eu traws o ganlyniad i'r cynllun a ddewiswyd gennych. [30]